Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Hawl Apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru



**Mae’r Tribiwnlys Addysg yn annibynnol o:**

- **y Llywodraeth**
- **Ysgolion Awdurdodau Lleol**
- **Sefydliadau Addysg Bellach**

**Mae’r tribiwnlys yn clywed ac yn penderfynu ar apeliadau a cheisiadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â neu a all fod ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).**

**Yn benodol, mae’n clywed ac yn penderfynu ar apeliadau am benderfyniadau Sefydliad Addysg Bellach neu Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae penderfyniadau’r tribiwnlys yn rhwymo’n gyfreithiol.**

**Mae’r Tribiwnlys Addysg yn rhoi cyngor ac arweiniad ar y wefan hon am y broses apêl a’r gweithdrefnau i gael eu dilyn: https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru.**

Mae’r Tribiwnlys Addysg yn annibynnol o:

- Y Llywodraeth
- Ysgolion Awdurdodau Lleol
- Sefydliadau Addysg Bellach

Mae’r tribiwnlys yn clywed ac yn penderfynu ar apeliadau a cheisiadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â neu a all fod ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Yn benodol, mae’n clywed ac yn penderfynu ar apeliadau am benderfyniadau Sefydliad Addysg Bellach neu Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae penderfyniadau’r tribiwnlys yn rhwymo’n gyfreithiol.

Mae’r Tribiwnlys Addysg yn rhoi cyngor ac arweiniad ar y wefan hon am y broses apêl a’r gweithdrefnau i gael eu dilyn: https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru

Gall plant a phobl ifanc hefyd apelio drwy ddweud wrth y tribiwnlys eu bod yn anghytuno gyda phenderfyniad am eu haddysg.



Gall plant a phobl ifanc ofyn i oedolyn eu helpu i lenwi ffurflen gais apêl. Os oes ganddynt rywun i’w helpu, enw’r person yw ‘cyfaill achos’. Mae’n rhaid i’r cyfaill achos ddweud wrth y tribiwnlys eu bod yn helpu.

Mae’r broses o ddatblygu Cynllun Datblygu Unigol sy’n gwneud yn siwr y caiff eich barn, dymuniad a theimladau chi a’ch plentyn neu berson ifanc eu cynrychioli yn helpu i oresgyn pryderon ac yn atal anghytundeb rhag digwydd.

Y peth gorau i bawb yw y caiff unrhyw anghytundeb ei ddatrys yn gynnar a gall hyn helpu i achosi straen.

Os na fedrwch gytuno am benderfyniadau neu ddarpariaeth, gall gwasanaethau partneriaeth rhieni annibynnol gan yr Awdurdod Lleol eich cefnogi.

Mae SNAP Cymru yn elusen plant sy’n gweithio gyda theuluoedd, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ar faterion yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ac anabledd.

Mae’r llinell wybodaeth a chyngor ar gael Llun - Gwener 9.30am – 4.30pm, www.snapcymru.org/help-for-families/

Os yw eich pryderon neu anghytundeb yn ymwneud â gwasanaeth a ddarperir gan y gwasanaeth iechyd yna bydd eich Awdurdod Lleol a Swyddog Arweiniol Addysg Glinigol Dynodedig yn cydweithio gyda’r bwrdd iechyd i geisio canfod datrysiad.

Mae gwybodaeth ar y broses unioni pethau ar gael yn::
www.wales.nhs.uk/ourservices/public accountability/puttingthingsright

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Tîm ADY**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,**
**Llys Einion,**
**Stryd yr Eglwys,**
**Abertyleri.**
**NP13 1DB**

**Ffôn: 01495 355443**
**E-bost: ALNEnquiries@blaenaugwent.gov.uk**

**Gyda diolch i Gyngor Sir Fynwy am rannu'r daflen hon.**